# Cyd-drafod datrysiadau ad-dalu ar gyfer dyledion sydd heb eu talu

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â chyd-drafod datrysiadau ad-dalu ar gyfer dyledion sydd heb eu talu. Mae'n ymwneud â'r camau gweithredu y mae'n rhaid eu cymryd pan na all dyledwr wneud ad-daliad llawn ar unwaith. Rhaid i chi weithio gyda'r dyledwr i ddeall yr amgylchiadau ariannol a chyd-drafod cynllun ad-daliadau sy'n dderbyniol i'r dyledwr a'r credydwr. Os deuir i gytundeb, rhaid i chi roi'r cynllun ad-daliadau ar waith a rhoi gwybod i'r rhanddeiliaid perthnasol. Os na ddeuir i gytundeb, neu os ydych yn amau bod gweithgaredd twyllodrus/gwyngalchu arian yn digwydd, rhaid i chi roi gwybod i'r partïon perthnasol. Bydd angen i chi ddangos cysondeb wrth wneud penderfyniadau a gweithredu ag uniondeb bob amser.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. Nodi a ymchwilio i'r rhesymau dros ôl-ddyledion yn unol â gweithdrefnau eich sefydliad
2. Gweithio gyda dyledwyr i ganfod strategaeth dderbyniol ar gyfer cyflawni ad-daliad llawn, yn unol â gweithdrefnau eich sefydliad
3. Cyflwyno opsiynau realistig ar gyfer dileu ôl-ddyledion sy'n briodol ar gyfer amgylchiadau'r dyledwr a pholisi casglu'r credydwr
4. Cytuno gyda dyledwyr ar gynllun ad-daliadau cyflawnadwy yn unol â gweithdrefnau eich sefydliad
5. Ceisio tystiolaeth ategol yn unol â gofynion lleol os bydd dyledwyr yn gofyn am drefniadau talu arbennig
6. Paratoi a gweithredu cytundebau ad-dalu yn unol â gweithdrefnau eich sefydliad
7. Rhoi gwybod i'r holl bartïon perthnasol am fanylion gofynnol y cytundebau ad-dalu, gan gynnwys dogfennau priodol
8. Rhoi gwybod i'r partïon perthnasol am fethiant i ddod i gytundeb a chychwyn camau priodol, yn unol â gweithdrefnau eich sefydliad
9. Rhoi gwybod am amheuon ynghylch gweithgaredd twyllodrus neu wyngalchu arian i'r partïon priodol, yn unol â gweithdrefnau eich sefydliad
10. Cadw cofnodion cywir wedi'u diweddaru yn unol â gweithdrefnau eich sefydliad
11. Cydymffurfio â gofynion cyfreithiol, rheoliadau'r diwydiant, safonau moesegol, polisïau sefydliadol a chodau ymarfer proffesiynol
12. Nodi risgiau posibl, gan gynnwys unrhyw weithgaredd twyllodrus yn unol â gweithdrefnau eich sefydliad

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. Y problemau y gall dyledwyr eu hwynebu o ran cadw at y taliadau y cytunwyd arnynt
2. Sut mae ymchwilio i effaith bosibl anawsterau i wneud ad-daliadau
3. Datrysiadau posibl ar gyfer ad-dalu dyledion
4. Sut mae gwerthuso'r datrysiad mwyaf priodol i ymateb i wahanol fathau o amgylchiadau ariannol
5. Sut mae cyd-drafod i sicrhau canlyniad effeithiol
6. Mathau o dystiolaeth ategol sy'n dderbyniol i'r sefydliad
7. Sut mae paratoi a gweithredu cynllun ad-daliadau, a'r dogfennau sydd i'w cyflwyno
8. Y partïon perthnasol y mae'n rhaid i chi ddarparu copïau o'r cytundeb ad-daliadau iddynt
9. Y partïon perthnasol y dylid eu hysbysu os na ellir dod i gytundeb ynghylch ad-daliadau
10. Sut mae adnabod a rhoi gwybod am dwyll neu wyngalchu arian
11. Yr hawliau cyfreithiol a'r awdurdodaethau sy'n berthnasol i wahanol fathau o gredydwyr a dyledwyr
12. Gweithdrefnau eich sefydliad ar gyfer cofnodi a storio gwybodaeth
13. Ymarfer a gweithdrefnau eich sefydliad yng nghyswllt adnabod, hybu a chymhwyso safonau moesegol
14. Gofynion eich sefydliad yng nghyswllt cymhwyso deddfau, trwyddedau, rheoliadau a chodau fel y maent yn effeithio ar eich gweithgareddau

## Ymddygiadau

1. Rydych yn fedrus am ddatrys problemau
2. Rydych yn ystyried beth sy'n rhesymol, o ystyried yr amgylchiadau cyffredinol
3. Rydych yn cyfleu gwybodaeth gymhleth mewn modd clir
4. Rydych yn parhau'n ddigynnwrf wrth ddelio gyda sefyllfaoedd heriol
5. Rydych yn arddangos pendantrwydd a hyder wrth weithredu
6. Rydych yn ymdrin â'ch gwaith mewn modd trefnus
7. Rydych yn ymddwyn yn broffesiynol ac yn gwrtais wrth ddelio gydag eraill

FSPDC03

Cyd-drafod datrysiadau ad-dalu ar gyfer dyledion sydd heb eu talu

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Skills for Justice |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 01 Maw 2017 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 01 Maw 2022 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Partneriaeth Sgiliau Ariannol |
| **RCU gwreiddiol** | FSPDC03 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Cyllid |
| **Cyfres/Set** | Casgliadau Dyledion |
| **Geiriau Allweddol** | Ôl-ddyledion; credyd; ad-dalu; peidio â gwneud ad-daliadau; heb eu talu; risg; ansolfedd; credydwr; dyledwr; esgaladu. |